

## JAMES, JOHN (1872 - 1934), cyfarwyddwr addysg Morgannwg

**Enw:** John James  
**Dyddiad geni:** 1872  
**Dyddiad marw:** 1934  
**Rhiant:** Mary James (née Thomas)  
**Rhiant:** David James  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cyfarwyddwr addysg Morgannwg  
**Maes gweithgaredd:** Addysg  
**Awdur:** Gwilym Arthur Jones

Mab ydoedd i David James, gweinidog (B) a'i wraig Mary, chwaer 'Myfyr Emlyn', y bardd-bregethwr. Bu ganddynt bedwar mab a phedair merch. Yr oedd yn frawd i Ddefynnog

Cafodd yrfa academaidd hynod ddisglair ar ôl gweithio mewn siop groser yn y Rhondda. Ac yntau ond yn 16 mlwydd oed aeth yn fyfyrwr (ar bwys ysgoloriaeth agored) i Goleg y Brifysgol, Caerdydd. Ar ôl ennill gradd dosbarth cyntaf Prifysgol Llundain yno, ymaelododd yng Ngholeg Balliol, Rhydychen, lle'r enillodd drachefn radd dosbarth cyntaf mewn mathemateg. Cymerodd radd ymchwil B.Sc., o'r un Brifysgol ac wedi treulio cyfnod fel myfyrwr ymchwil ym Mhrifysgol Erlangen yn yr Almaen dyfarnwyd iddo radd Ph.D. ym maes trydaneg.

Bu'n gyfarwyddwr addysg Morgannwg o 1903 i 1929. Gwnaeth lawer i hybu dysgu Cymraeg yn ysgolion Sir Forgannwg.

### Awdur

**Gwilym Arthur Jones**, (1925 - 1998)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Jones, G. A., (1997). JAMES, JOHN (1872 - 1934), cyfarwyddwr addysg Morgannwg. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c5-JAME-JOH-1865>

Trannu

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government